# Trwydded Cynhwysydd, Uned Lesiant, Toiledau Cludadwy

## Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 171

### Telerau ac Amodau

**Rhaid i Ddeiliad y Drwydded (Cyflenwr a Gosodwr) sicrhau bod:**

**1.** Goleuadau a chyfleusterau diogelu addas yn cael eu darparu a'u cynnal yn unol â'r **Llawlyfr Arwyddion Traffig**: **Pennod 8 a Diogelwch ar Waith Stryd a Ffordd (Llyfr Coch)** drwy gydol cyfnod y drwydded.

2. Rhaid i bob uned gael stribed adlewyrchol ar bob cornel; rhaid iddyn nhw gael eu cynnal a'u cadw, a'u cadw'n lân ac yn glir yn ystod cyfnod y drwydded.

3. Nad yw'r uned yn rhwystro unrhyw gyli neu siambr archwilio.

4. Nad yw'r uned yn rhwystro neu'n mynd i mewn i sianel neu gwter, na chaniatáu i unedau sydd o'u mewn i fynd i mewn i ddraeniau neu gylïau ar y briffordd.

5. Nad oes unrhyw unedau fflamadwy, cyrydol, gwenwynig na ffrwydrol yn cael eu gosod o dan y drwydded hon.

6. Bod yr ardal yn cael ei gadw'n lân ac yn ddestlus ar bob adeg.

7. Bod y briffordd a'r ymylon y gwair yn cael eu gwarchod yn addas cyn i'r unedau gael eu gosod. Rhaid i'r ymgeisydd dalu am drwsio unrhyw ddifrod a hynny i safonau Cyngor Caerdydd.

8. Bod pob uned yn cael ei symud o'r Briffordd erbyn y dyddiad a nodir drosodd.

9. Bod pob uned yn cael ei symud ar unwaith ar gais unrhyw Ymgymerwr Statudol sydd angen mynd ar y safle.

10. Gosod a chynnal a chadw unrhyw arwyddion rhybudd a orchmynnir gan Gyngor Caerdydd.

11. Nad yw deunydd yn cael ei adael o fewn 8 metr i gyffordd.

12. Nad yw'r cynhwysydd(ion) yn rhwystro arwyddion stryd, caeadau ar gyfleustodau, blychau, safleoedd bws ac ati.

13. Nad yw'r unedau yn cael eu gosod fel bod gyrwyr a cherddwyr yn methu gweld.

14. Nad yw'r unedau yn cael eu gosod lle mae cyfyngiadau ar barcio mewn grym (oni bai bod y Cyngor yn cytuno fel arall).

15. Nad yw unedau yn cael eu gosod ar brif lwybrau, oni bai bod y Cyngor yn eu cymeradwyo

16. Bod eiddo a busnesau gerllaw yn cael gwybod bod uned yn cael ei rhoi y tu allan neu gerllaw. Rhaid i ymgeiswyr gadarnhau nad yw cymdogion wedi datgan gwrthwynebiad cyn i'r uned gael ei gosod.

17. Ni ddylid storio unedau ar ben cynhwysydd(ion).

**Sylwch;**

18. Bydd Cyngor Caerdydd yn trwsio unrhyw ddifrod i'r briffordd fabwysiedig sy'n digwydd o ganlyniad i osod neu symud cynhwysyddion, a'r bil yn cael ei anfon at yr ymgeisydd.

19. Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau fydd Cyngor Caerdydd yn eu hwynebu o ganlyniad i dorri ar delerau ac amodau'r drwydded.

**Cosb ar gyfer peidio â chadw at y telerau ac amodau**

Caiff cost llawn atgyweirio unrhyw ddifrod i'r briffordd ei hadennill gan Gyngor Caerdydd oddi ar Ddeiliad y Drwydded.

- Os rydych yn methu â chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX y Ddeddf Briffyrdd 1980 am rwystro priffordd** ○ Is-Adran 137 (Cosb am greu rhwystr bwriadol) £100 Cosb Benodedig

○ Is-adran 137ZA Grym i orchymyn troseddwr i symud rhwystr

○ Is-adran 171 Meddiannu Priffordd **E+W** ac ati (Cyflawni Trosedd o dan yr is-adran hon) £100 Cosb Benodedig.

○ Is-adran 149 Symud eitemau adawyd ar Briffyrdd gan achosi niwsans (Grym i symud ac adennill costau)

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd Deiliad y Drwydded yn digolledu, a chadw Cyngor Caerdydd a/neu ei weision a'i asiantau wedi'u digolledu, yn erbyn unrhyw rwymedigaethau, unrhyw hawliadau, galwadau, gweithredoedd, costau ac iawndaliadau sy'n codi mewn neu o ganlyniad i leoli sgipiau ar y ffordd gerbydau, troedffordd neu lain las. Mae cyfnod yr indemniad yn dechrau pan mae'r unedau'n cael eu gosod, ac yn gorffen pan maen nhw'n cael eu symud yn llwyr. Rhaid i'r polisi ddiogelu hyd at £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad, gyda chwmni yswiriant cymeradwy. Pryd bynnag y bydd yn ofynnol ganddo, bydd rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno'r polisi neu'r polisïau yswiriant i'r Awdurdod a'r derbynebion ar gyfer y polisi cyfredol.

Ar ôl ei llenwi, anfonwch eich ffurflen gais, ac unrhyw ddogfennaeth / cynlluniau gofynnol at:

Cyngor Caerdydd – Gwasanaethau Cymunedol, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, CAERDYDD CF10 4UW neu – GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk